

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

## Strategaeth Toiledau Lleol Mai 2019



## Cyflwyniad

Mae darpariaeth toiledau, a mynediad i doiledau, yn fater sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Gall toiledau glân a hygyrch sydd mewn lleoliad da mewn lleoedd megis canol trefi, parciau, llwybrau beic a llwybrau cerdded helpu i annog pobl i gymdeithasu, ymarfer ac aros yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae gan hyn fuddion iechyd ac economaidd amlwg. Ar y llaw arall, gall diffyg cyfleusterau toiled digonol effeithio ar iechyd corfforol a meddwl person, yn ogystal ag ar iechyd amgylcheddol ehangach y boblogaeth.

Mae gan ddarpariaeth toiledau oblygiadau ar gyfer iechyd y cyhoedd ac iechyd unigolion, cludiant, atal troseddu, dyluniad trefol, datblygiad economaidd a diwylliannol, tegwch cymdeithasol a hygyrchedd. Mae'n ffactor bwysig wrth ddarparu amgylchedd 'cyfeillgar i bobl' ar gyfer pawb sy'n mynd i ganolfannau siopa, safleoedd hamdden ac adloniant, cyfleusterau chwaraeon, parciau a gofodau gwyrdd, pawb sy'n symud o gwmpas ar droed neu feic, trafnidiaeth breifat neu gyhoeddus, p'un ai ar gyfer gwaith neu bleser.

Mae toiledau ar gyfer defnydd y cyhoedd yn bwysig i bawb sy'n mynd "i ffwrdd o gartref" am ryw reswm ac mae'n parhau'n fater proffil uchel, Fodd bynnag, maent hyd yn oed yn bwysicach i rai grwpiau o fewn cymdeithas, yn cynnwys pobl hŷn, pobl gydag anabledau, pobl gydag anghenion neilltuol (yn cynnwys rhai problemau meddygol), menywod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall diffyg darpariaeth effeithio'n waeth ar y grwpiau hyn; er enghraifft deallir fod darpariaeth wael yn cael effeithiau negyddol neilltuol ar bobl hŷn, gan y gall rhai fod yn llai tebygol o adael eu cartrefi os nad ydynt yn hyderus y bydd cyfleusterau digonol ar gael iddynt. Gall hyn gyfrannu at gynnydd mewn ynysigrwydd cymdeithasol a diffyg gweithgaredd, yn ogystal ag effeithio ar allu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u hurddas pan fyddant yn hŷn.

## **Diffiniad o dermau allweddol**

Yn y strategaeth hon defnyddir y termau dilynol ar gyfer gwahanol fathau o gyfleusterau toiled:

**Toiled(au):** mae hyn yn golygu cyfleusterau toiled y gall y cyhoedd eu defnyddio a all fod mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat, o fewn amrywiaeth o safleoedd ac nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r defnyddiwr fod yn gwsmer neu brynu rhywbeth;

**Toiled(au) cyhoeddus traddodiadol:** mae hyn yn cynnwys cyfleusterau toiled pwrpasol ym mherchnogaeth neu dan reolaeth awdurdod lleol a ddarperir er defnydd y cyhoedd. Mae rhai dyfyniadau yn y geiriad o ddeddfwriaeth ac yn y blaen yn defnyddio'r term 'toiled cyhoeddus', ac yn yr achosion hyn ni chafodd y gair 'traddodiadol' ei gynnwys.

**Toiled(au) niwtral o ran y rhywiau:** mae'r term hwn yn golygu toiled na chafodd ei ddynodi'n llwyr ar gyfer defnydd gwrywod neu fenywod, ond y gellir ei ddefnyddio gan bawb. Gall y math hwn o doiled yn flaenorol fod wedi'i alw yn 'un-rhyw'.

**Lle(oedd) newid:** mae'r rhain yn doiledau llwyr hygyrch gyda mainc newid y gellir addasu ei uchder, system hoist, toiled penrhyn, a digon o le i berson gydag anabledd, eu cadair olwyn a dau ofalwr.

**Toiled(au) hygyrch safonol:** ciwbiclau a gynlluniwyd yn arbennig mewn toiledau i'r rhywiau ar wahân neu doiled hunan-gynwysedig niwtral o ran y rhywiau. Gall y rhain hefyd gael eu galw yn 'doiledau i'r anabl'.

## **Pam ein bod angen strategaeth?**

Daeth Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Darpariaeth Toiledau i rym ar 31 Mai 2018 ac mae'n gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a cyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Mae'r Ddeddf yn dweud fod yn rhaid

i'r strategaeth gynnwys asesiad o anghenion y gymuned ar gyfer toiledau, yn cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau lleoedd newid ar gyfer pobl gydag anableddau. Mae'n rhaid i'r strategaeth hefyd roi manylion sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r anghenion a ddynodwyd.

**Mae'n bwysig nodi nad yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol.**

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb am:

- asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- cynllunio camau i gael eu cymryd i ddiwallu'r anghenion hynny;
- paratoi a chyhoeddi strategaeth; ac
- adolygu'r strategaeth a chyhoeddi datganiadau interim ar gynnydd.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymryd barn strategol ar draws yr ardal ar sut y gall cyfleusterau gael eu darparu a'u cyrchu gan y gymuned. Bydd angen i ni ystyried ystod llawn o opsiynau ar gyfer darparu cyfleusterau i'r cyhoedd ac ystyried gwahanol ffyrdd o ddiwallu angen a ddynodwyd.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i gyrrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, edrych ar atal problemau a chymryd dull gweithredu mwy cydlynol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithredu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n dweud wrth gyrrff cyhoeddus sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd dan y Ddeddf honno. Mae'r egwyddor yn cynnwys pump ffordd o weithio y dylai cyrrff cyhoeddus eu dilyn wrth weithredu datblygu cynaliadwy, sef:

- edrych i'r **hirdymor** fel nad ydym yn lleihau gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- cymryd dull gweithredu **integredig**
- **cydweithio** gydag eraill i ganfod datrysiadau cynaliadwy a gaiff eu rhannu;
- **cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- gweithredu i **atal** problemau rhag digwydd neu waethygu.

Rhodddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r pump ffordd uchod o weithio wrth baratoi, adolygu, ymgynghori ar a chyhoeddi'r strategaeth.

Nodau allweddol strategaeth toiledau lleol yw:

- dynodi cyfleusterau toiled allweddol mewn lleoliad;
- dynodi cyfleusterau sydd mewn risg o gael eu colli mewn lleoliad, a ffordd o gadw eu defnydd;
- dynodi darpariaethau amgen os yw'n rhaid i gyfleusterau gau;
- dynodi cyfleusterau ychwanegol y gellir eu defnyddio yn ehangach i ategu cyfleusterau presennol neu i gymryd lle rhai a gollwyd; a
- dynodi cyfleoedd ar gyfer creu cyfleusterau newydd i fanyleb fodern, gynhwysol.

### **Cysylltiadau gyda strategaethau a chynlluniau eraill y Cyngor**

Er mwyn llwyddo, mae angen i'n strategaeth toiledau lleol integreiddio gyda strategaethau a chynlluniau eraill fel Y Blaenau Gwent a Garem, Cynllun Llesiant Lleol 2018-2023, Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021, Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Blaenau Gwent 2016-2019, Bargen Ddinesig Blaenau Gwent, Strategaeth Menter Blaenau Gwent a Strategaeth Canol Trefi Blaenau Gwent.

Mae Y Blaenau Gwent a Garem, Cynllun Llesiant Lleol 2018-2023 yn gweithredu fel dogfen gynhwysfawr sy'n gosod y cyfeiriad strategol ar lefel leol. Amcanion y cynllun yw sicrhau:

- bod pawb yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
- cymunedau diogel a chyfeillgar;
- gofalu am a diogelu ei amgylchedd naturiol;
- llunio llwybrau newydd i ffyniant, ac
- annog a galluogi pobl i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach yn y mannau lle maent yn byw, dysgu, gweithio a chwarae.

Bydd y Fargen Ddinesig yn rhoi'r grymoedd ac adnoddau i bartneriaid lleol ddatgloi twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i barhau i fynd i'r afael â rhwystrau'r ardal i dwf economaidd drwy wella cysylltedd trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, cefnogi pobl i waith, a rhoi'r gefnogaeth mae busnesau ei hangen i arloesi a thyfu.

Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn ddogfen strategol sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer ffordd ymlaen gyda ffocws ar ymwelwyr ar gyfer datblygu twristiaeth yn yr ardal. Ei brif allbwn yw Cynllun Gweithredu Cyrchfan sy'n nodi'r camau ymarferol y gallant, os cânt eu cymryd ar y cyd gan yr holl randdeiliaid, gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, gwella ansawdd profiad ymwelwyr a thyfu'r economi ymwelwyr ym Mlaenau Gwent.

Mae Amcanion Llesiant 2017 y Cyngor yn dynodi saith prif amcan llesiant. Mae'r strategaeth toiledau lleol yn cefnogi'r amcanion dilynol:

- Creu amgylchedd a seilwaith gwell ac estynedig fydd er budd ein cymunedau, busnesau ac ymwelwyr;
- Byddwn yn Awdurdod modern a chraff, yn darparu arweinyddiaeth i alluogi pobl a chymunedau i ffynnu;
- Cymryd dull ataliol ac ymyrraeth gynnar i gefnogi'r bobl fwyaf bregus gan sicrhau, lle'n briodol, y cânt eu gwarchod a'u cefnogi i gyflawni canlyniadau a llesiant personol;

- Galluogi pobl hŷn i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i gynyddu eu hannibyniaeth i'r eithaf a byw bywydau iach ac sydd wedi ymgysylltu; a
- Cefnogi dinasyddion i gymryd rôl egnïol ac wedi'u grymuso yn eu cymunedau i roi cydnerthedd.

### **Nodau'r strategaeth**

Nodau'r strategaeth hon yw adolygu ansawdd a nifer y toiledau lleol ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol a hwyluso darparu toiledau glân, diogel, cyfleus a chynaliadwy ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr i'r fwrdeistref mewn lleoliadau lle dynodwyd yr angen am gyfleusterau o'r fath.

I gyflawni hyn byddwn yn:

- Dynodi lefel bresennol darpariaeth toiledau cyhoeddus;
- Dadansoddi canfyddiadau'r asesiad angen;
- Ystyried gofynion y boblogaeth gyffredinol;
- Dynodi'r anghenion ar gyfer grwpiau defnyddwyr neilltuol;
- Arolygu cyflwr cyfleusterau toiledau cyhoeddus nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd;
- Dynodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol; a
- Rhoi datganiad yn nodi'r camau y mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig eu cymryd i ddiwallu'r angen.

### **Adolygu'r strategaeth**

Bydd CBS Blaenau Gwent yn paratoi adroddiad cynnydd interim yn gosod y camau a gymerwyd yn unol â'u strategaeth bob dwy flynedd yn dechrau o ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth ddiwethaf. Cyhoeddir yr adroddiad cynnydd interim o fewn chwe mis o ddyddiad terfyn y cyfnod dwy flynedd. Felly, yn dilyn cyhoeddiad ym mis Mai 2019, cynhelir yr adolygiad cyn diwedd mis Mai 2021 a chaiff ei gyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd 2021.

Bydd CBS Blaenau Gwent hefyd yn adolygu'r strategaeth toiledau lleol o fewn blwyddyn o bob etholiad cyffredin ar gyfer ei ardal. Dyddiad yr etholiad nesaf yng Nghymru yw dydd Iau 5 Mai 2022

felly y dyddiad diwethaf ar gyfer adolygiad yw 4 Mai 2023. Os na wneir unrhyw newidiadau i'r strategaeth yn dilyn yr adolygiad ar ôl yr etholiad yna bydd CBS Blaenau Gwent yn cyhoeddi datganiad cynnydd interim yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd yn dechrau o ddyddiad yr etholiad diwethaf.

Gall CBS Blaenau Gwent adolygu ei strategaeth ar unrhyw bryd wedi hynny pryd y mae'n rhaid iddo gyhoeddi datganiad o'r camau a gymerodd yn unol â'r strategaeth. Yn dilyn adolygiad, os yw CBS Blaenau Gwent yn penderfynu diwygio'r strategaeth, bydd yn cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig ac yna'n paratoi adroddiad cynnydd interim yn cwmpasu'r cyfnod o ddwy flynedd yn dechrau o'r dyddiad cyhoeddi.

### **Darpariaeth hanesyddol cyfleusterau toiledau cyhoeddus**

Yn hanesyddol mae CBS Blaenau Gwent wedi wynebu heriau i gynnal safonau darpariaeth, cynnal a chadw a glanhau toiledau oherwydd cyllid cyfyngedig a phwysau ar adnoddau, yn arbennig gan nad yw darparu toiledau lleol ar gyfer defnydd y cyhoedd yn swyddogaeth statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly, cytunodd yr awdurdod lleol i gau pob un o'r pump cyfleuster toiledau cyhoeddus yn 2014 i hwyluso arbedion o £36,000. Fel canlyniad, effeithiwyd ar y toiledau cyhoeddus ym mhum tref Glynebwy, Tredegar, Abertyleri, Brynmawr a Blaenau.

Er mwyn annog busnesau lleol i agor eu toiledau a chynyddu nifer y toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio, cynigiodd Llywodraeth Cymru Grant Cynllun Toiledau Cymunedol a weinyddid gan lywodraeth leol. Cafodd busnesau gynnig iawndal blynyddol o hyd at £500. Yn 2014/15 cafodd y cyllid hwn ei drosglwyddo i Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru.

Adeg cau'r toiledau cyhoeddus, roedd 36 toiled cymunedol yn gweithredu ar draws y Fwrdeistref, felly teimlid bod darpariaethau eraill digonol i'r cyhoedd eu defnyddio. Fodd bynnag, mae nifer y toiledau cymunedol yn yr ardal wedi gostwng dros y pum mlynedd ddiwethaf a bellach nid yw'r awdurdod lleol yn cefnogi unrhyw doiledau cymunedol. Y prif resymau a gafodd yr awdurdod lleol



pam nad yw busnesau lleol a phartneriaid yn dymuno parhau i gefnogi'r cynllun yw problemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth a glanweithdra a'r costau cysylltiedig i ddelio gyda'r materion hyn.

## **Darpariaeth Bresennol**

Mae canol trefi yn gyrchfan boblogaidd i breswylwyr ar draws y fwrdeistref. Yn dilyn cau'r pump toiled cyhoeddus, mae nifer o grwpiau cymunedol a busnesau lleol wedi dod yn gyfrifol am weithredu'r toiledau yn Nhredegar, Brynmawr a Glynebwy. Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion oriau agor a'r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob un o'r ardaloedd hyn.

Ar hyn o bryd mae'r blociau toiledau yn y Blaenau ac Abertyleri yn parhau ar gau ac o gofio am ddiffyg toiledau cymunedol sy'n gweithredu ar draws y Fwrdeistref, byddid yn ystyried bod y ddarpariaeth yn y ddwy ardal canol tref yma yn annigonol. Cynhaliwyd arolygon cyflwr sy'n amcangyfrif fod y cyfanswm gwariant cyfalaf sydd ei angen tua £79,000 ac nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y gyllideb refeniw barhaus sydd ei hangen i weithredu, glanhau a chynnal a chadw. Oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol nid oes fawr o debygrwydd y gall y Cyngor ddyrannu unrhyw gyllid cyfalaf neu refeniw i'r gwasanaeth felly bydd angen parhau i ymchwilio dulliau darpariaeth eraill.

Heddiw mae ffocws darpariaeth bresennol toiledau cyhoeddus ym Mlaenau Gwent ar gyfleusterau hamdden a manwerthwyr.

Mae llawer o fanwerthwyr preifat a chyfleusterau hamdden yn darparu cyfleusterau cyhoeddus fel rhan o'u datblygiadau, er enghraifft Canolfan Siopa Parc yr Ŵyl, canolfannau hamdden, Parc Bryn Bach, ac maent yn darparu cyfleusterau toiled ar wahân yn cynnwys toiledau, cyfleusterau newid babanod a thoiledau hygyrch yn ystod eu horiau agor, a gynlluniwyd i fodloni eu hymwelwyr. Er nad yw'r rhain yn doiledau cyhoeddus, maent yn gyfleusterau y gall y cyhoedd eu defnyddio pan fyddant yn ymweld ag ardal neilltuol, canolfan siopa neu gyfleuster hamdden ac

maent yn golygu fod llai o reidrwydd i ddarparu cyfleusterau traddodiadol a gaiff eu rhedeg gan y Cyngor yn yr ardaloedd hyn.

Mae twristiaeth yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r economi rhanbarthol a lleol, fel a ddynodwyd yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan. Mae'r cynllun diweddaraf wedi nodi twf mewn ymwelwyr i'r ardal leol sy'n cyfnerthu gwerth twristiaeth i'r ardal ac yn amlygu pam ei bod yn bwysig parhau i dyfu a gwella'r cynnig lleol. Felly, mae argaeledd toiledau glân a hygyrch i'r cyhoedd yn gynyddol bwysig i'r economi lleol.

### **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus drwy gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018 i asesu anghenion preswylwyr a phobl yn ymweld neu'n gweithio o fewn y fwrdeistref sirol gyda golwg ar ddynodi bylchau mewn darpariaeth a sut y gallai'r rhain cael eu trin. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy system ymgynghori ar-lein y Cyngor. Hysbyswyd sefydliadau partner am yr ymarferiad gyda golwg ar hyrwyddo cwblhau'r arolwg ac yn ystod mis Rhagfyr cysylltwyd gyda'r cyhoedd mewn nifer o lyfrgelloedd lleol a chanol trefi. Fodd bynnag, nifer fach o ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ac felly mae angen pwyll wrth ystyried unrhyw ganlyniadau. Mae crynodeb o'r asesiad anghenion ar gael yn Atodiad 2.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r asesiad anghenion, 92%, yn byw yn y fwrdeistref ac roedd 88% o'r ymatebion hyn yn ymwneud â'r cyfleusterau a ddarperir mewn canol trefi, gan ddangos pwysigrwydd cyfleusterau yng nghanol trefi i breswylwyr. Y ddwy ardal fwyaf poblogaidd a ddewisodd ymatebwyr i roi sylwadau arnynt oedd Glynebwy ac Abertyleri.

Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae digon o gyfleusterau toiled yn yr ardal', roedd dau-draen yr ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda'r datganiad. O'r preswylwyr hynny a anghytunai neu a anghytunai'n gryf, roeddent wedi dewis rhoi

sylwadau ar y cyfleusterau toiled yng nghanol trefi lle mae diffyg darpariaeth ar hyn o bryd.

Dywedodd nifer fawr o ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth ar ble mae'r cyfleusterau toiled ar gael ond yn gyffredinol teimlent yn ddiogel yn eu defnyddio ac ystyried eu bod yn lân a thaclus er y dywedodd rhai fod angen uwchraddio cyfleusterau i safonau modern ac y byddent yn manteisio o gael eu haddurno.

Roedd ymatebwyr yn gyffredinol fodlon talu am ddefnyddio'r toiledau; fodd bynnag, oherwydd nifer isel yr ymatebion i'r asesiad anghenion, byddai angen ymgysylltu pellach â'r gymuned pe byddai'r awdurdod lleol yn dewis dilyn hyn fel opsiwn er mwyn deall os byddai'n ddewis cynaliadwy.

Lle mae diffyg darpariaeth yng nghanol trefi, teimlai ymatebwyr y byddent yn defnyddio toiledau mewn siopau a bwytai os nad oedd yn rhaid iddynt brynu unrhyw beth a dywedodd llawer nad oeddent yn credu ei bod yn iawn fod yn rhaid prynu rhywbeth er mwyn defnyddio'r cyfleusterau toiled mewn tafarndai a chaffes.

Pan ofynnwyd am syniadau sut y medrid gwella'r cyfleusterau, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr y dylid ailagor toiledau cyhoeddus yn neilltuol yn yr ardaloedd lle mae diffyg darpariaeth. Awgrymwyd hefyd fod y Cyngor yn cynnig cymhelliant ariannol i gaffes a siopau sy'n cytuno i agor eu toiledau i'r cyhoedd eu defnyddio a darparu person glanhau ar gyfer y cyfleusterau.

Cydnabu llawer o ymatebwyr fod y gwirfoddolwyr a ddaeth yn gyfrifol am weithredu'r toiledau yn gwneud gwaith da a bod darpariaeth wedi gwella pan ailagorwyd y cyfleusterau toiled ond bod y grwpiau hyn angen helpu i addurno ac uwchraddio'r cyfleusterau er na wnaethant fanylu pwy fyddai'n darparu'r help hwn.

## **Arwyddion a mapio toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd**

Mae hyn yn rhan bwysig o'n strategaeth fel y gall pobl sydd angen ymweld â thoiled gael mynediad rhwydd i wybodaeth am y lleoliad, amserau agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Bydd y Cyngor yn adolygu a diweddarau storfa ddata "Lle" Llywodraeth Cymru yn gyfnodol er mwyn rhoi mynediad i wybodaeth gywir gan gyhoeddwyd llawlyfrau a mapiau, preswylwyr ac ymwelwyr. Mae Lle yn borth daearyddol sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer data a gwybodaeth ar sbectrwm eang o bynciau ond yn bennaf yn ymwneud â'r amgylchedd. Bydd Lle yn cynhyrchu mapiau Cymru-gyfan yn seiliedig ar y setiau data a ddarperir gan awdurdodau lleol y gellir eu cyflunio i ganolbwyntio ar naill ai'r darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data a gynhwysir ym map Lle ar gael fel gwasanaeth data agored sydd ar gael i bawb. Y ddolen i borth Lle yw:

<http://lle.gov.wales/home>

Bydd y set data ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall y cyhoedd weld a chwilio'r data fel yr ymddengys ar wefan Lle, i edrych ar bob rhan o Gymru neu ar ardaloedd neilltuol.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu ap, gan na all llawer o bobl ddefnyddio ffôn deallus am nifer o resymau. Mae'n fwy addas canolbwyntio ar sicrhau fod yr wybodaeth ar gael ar-lein drwy ystod eang o wefannau a thrwy ddulliau traddodiadol heb fod ar-lein.

Bydd y safleoedd sy'n cymryd rhan hefyd yn arddangos sticer mewn man amlwg, yn dangos fod toiledau ar gael i'r cyhoedd. Bydd y sticer yn dangos y logo a nodir gan Lywodraeth Cymru. Mae Cymdeithas Toiledau Prydain (BTA) hefyd yn argymhell gosod arwyddion ar y tu allan gyda gwybodaeth fel oriau agor, gwybodaeth gyswllt ar gyfer hysbysu problemau a'r cyfleusterau penodol a ddarperir tu mewn, megis os oes ystafell newid babanod.

Bydd manylion llawn lleoliad, amserau agor a'r cyfleusterau sydd ar gael ar wefan Lle a byddant yn cael eu diweddarau yn rheolaidd.

### **Gwella mynediad i gyfleusterau toiled**

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r opsiynau i gael eu hystyried dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn cynyddu darpariaeth toiledau lleol. Y brif nod fydd gwneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth bresennol yn safleoedd y Cyngor a hefyd adeiladau partneriaid. I wneud hyn bydd Blaenau Gwent yn:

Ymchwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i benderfynu os yw toiledau yn adeiladau'r Cyngor i fod ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio, yn arbennig yn yr ardaloedd a'r mannau lle maent fwyaf eu hangen;

Parhau i weithio gyda phartneriaid lleol, busnesau lleol, manwerthwyr cenedlaethol, y sector gwirfoddol, y sector preifat, cynghorau tref a chymuned i ymchwilio'r holl opsiynau i wneud mwy o doiledau lleol ar gael ble a phryd mae eu hangen;

Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a darparwyr gofal iechyd i ymchwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i benderfynu p'un ai i ganiatáu i'w cyfleusterau toiledau i fod ar gael i'r cyhoedd;

Gweithio gyda Hamdden Aneurin i ymchwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i benderfynu p'un ai i ganiatáu i'w cyfleusterau toiledau fod ar gael i'r cyhoedd pryd a ble mae mwyaf eu hangen;

Anelu i sicrhau fod yr holl gyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn addas a hygyrch i bob adran o'r gymuned;

Sicrhau y caiff sticer logo toiledau ei ddangos wrth y fynedfa i bob adeilad a busnes priodol;

Gwella ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar ddarpariaeth toiledau drwy ddiweddarau gwybodaeth ar wefan Blaenau Gwent a thrwy wefan Lle;

Ymchwilio opsiynau yng nghyswllt gweithrediadau glanhau i sicrhau y caiff safonau a darpariaeth ei gynnal yn effeithiol ac effeithlon o fewn yr adnoddau sydd ar gael;

Parhau i weithio gyda'r heddlu, preswylwyr, partneriaid lleol a grwpiau cymunedol i sicrhau fod cyfleusterau cyhoedd mor ddiogel ag sydd modd; a

Parhau i sicrhau fod digwyddiadau lleol yn parhau i ddarparu cyfleusterau toiled dros dro digonol mewn digwyddiadau a drefnwyd.

## **Casgliadau**

Mae llwyddiant unrhyw strategaeth yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth i gael y budd mwyaf o adnoddau prin. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu perthynas rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i hybu darpariaeth toiledau cyhoeddus cynaliadwy.

Gwyddom o'n hymgyngoriad ar asesiadau anghenion fod bwlch rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, yn arbennig ganol trefi Blaenau ac Abertyleri. Sylweddolwn na allwn fel awdurdod lleol fforddio llenwi'r bwlch drwy weithio ar wahân.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn cynigiwn gyfres o gamau gweithredu y gallwn eu cymryd dros y 2 flynedd nesaf ac ar ôl hynny cynhelir adolygiad ar y strategaeth.

Byddwn yn ceisio ymchwilio ffyrdd y gallwn gydweithio gyda'r sector preifat/sector gwirfoddol i wella darpariaeth ym mhob lleoliad lle dynodwyd angen.

Bydd arwyddion i'r holl gyfleusterau toiled sydd ar gael i'r cyhoedd a chânt eu mapio, fel y bydd preswylwyr ac ymwelwyr yn gwybod lle i ddod o hyd iddynt, pryd maent ar agor a pha gyfleusterau sydd ar gael.

# Atodiad 1

Ardal	Cyfeiriad	Cod Post	Math o doiled (WC, Newid Baban, Lleoedd Newid Hygyrch)	Mynediad gwastad	Cael eu staffio - Ydi neu Na	Angen allwedd RADAR	Cyfleusterau Newid Baban ar gael	Am ddim i'w defnyddio	Oriau agor
Glynebwy	Stryd y Farchnad	NP23 6HL	WC - Gwryw a Benyw	Oes	Na	Oes	Na	Ydi	8.00am - 3.00pm
Brynmawr	Sgwâr y Farchnad	NP23 4AL	WC - Gwryw a Benyw	Oes	Na	Oes	Na	Oes	8.00am - 5.00pm
Tredegar	Canolfan Siopa Gwent	NP22 3EJ	WC - Gwryw a Benyw	Oes	Na	Dim ond ar gyfer ciwbicl anabl ar wahân	Oes	Ydi	8.00am i 5.00pm

## **Crynodeb ymatebion i ymgynghoriad asesiad anghenion**

Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018. Sefydlwyd yr arolwg ar-lein drwy system ymgynghori ar-lein y Cyngor a chafodd pobl eu cyfeirio i'r arolwg drwy'r wefan gorfforaethol. E-bostiwyd copïau o'r dolenni at yr arolwg at sefydliadau partner. Yn ystod mis Rhagfyr cysylltwyd gyda'r cyhoedd mewn nifer o lyfrgelloedd lleol a chanol trefi i lenwi'r arolwg ar-lein drwy iPad neu gopi papur.

Dim ond 49 arolwg a gafodd eu cwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu.

Canfyddiadau allweddol:

- Roedd 92% o'r ymatebwyr yn byw ym Mlaenau Gwent;
- Roedd 88% o'r ymatebion yn cyfeirio at y cyfleusterau a ddarperir yng nghanol trefi;
- Anghytunodd 66% o'r ymatebwyr fod digon o gyfleusterau toiledau yn yr ardal;
- Cytunodd 46% o ymatebwyr fod y cyfleusterau mewn lleoliadau da;
- Teimlai 58% o ymatebwyr yn ddiogel yn defnyddio'r cyfleusterau a ddarparwyd;
- Teimlai 79% o ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth ar ble mae'r cyfleusterau;
- Teimlai 50% o ymatebwyr fod y cyfleusterau ar agor ar yr adegau maent eu hangen;
- Teimlai 57% o ymatebwyr fod y cyfleusterau yn lân a thaclus;
- Dywedodd 65% o'r ymatebwyr y byddent yn fodlon talu am ddefnyddio'r toiledau; a



## Atodiad 2

- Byddai 73% o ymatebwyr yn defnyddio toiledau mewn siopau a bwytaï pe na fyddai'n rhaid iddynt brynu dim byd.

### Demograffig:

- Roedd 65% o ymatebwyr yn fenywod;
- Roedd 93% o ymatebwyr rhwng 35-74 oed; a
- Roedd gan 10% o ymatebwyr anabledd.

## **Trosolwg o'r ardal leol**

Mae Blaenau Gwent yn ardal ddaearyddol cymharol fach, gan fod ar ei mwyaf yn 15 milltir o'r gogledd i'r de ac 8 milltir o'r dwyrain i'r gorllewin. Caiff Blaenau Gwent ei diffinio'n ffisegol gan fryniau uchel yn gwahanu'r tri phrif gwm. Mae'r cartrefi hyn yn gartref i drefi a phentrefi ac mae pob cymuned yn falch o gynnal eu cymeriad a'u traddodiadau eu hunain. Er fod y drefi yn rhoi naws drefol i'r fwrdeistref sirol, mae Blaenau Gwent mewn gwirionedd yn ardal wledig gan bennaf.

Yn y 20 mlynedd ddiwethaf mae pobl Blaenau Gwent wedi wynebu llawer o heriau, gyda chau'r holl byllau glo ddiwedd y 1980au a gwaith dur Glyn Ebwy yn 2002 yn arwain at golli llawer o swyddi.

Mewn ymgais i ostwng effaith hyn, gwnaed ymdrech sylweddol i newid ffocws yr economi lleol tuag at y diwydiannau gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Fodd bynnag, dros y cyfnod bu colled gyffredinol o swyddi a bu'n rhaid i lawer o bobl ifanc a theuluoedd symud i ffwrdd i chwilio am addysg bellach a chyflogaeth. Dangosir hyn gan ostyngiad o 5% yn y boblogaeth rhwng 1991 a 2011. Mae hyn yn wahanol i Gymru yn gyffredinol lle bu cynnydd o 4%. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i 49% o breswylwyr mewn gwaith Blaenau Gwent deithio tu allan i'r fwrdeistref i weithio ac mae pellter teithio i'r gwaith wedi cynyddu gan fwy nag unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

## **Data poblogaeth**

Fel y rhan fwyaf o leoedd yn y Deyrnas Unedig, mae poblogaeth Blaenau Gwent yn heneiddio. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd bod llai o bobl yn cael eu geni nag o'r blaen ac mae'r bobl hynny sy'n fyw yn byw yn hirach. Mae'r wybodaeth islaw yn dangos tueddiadau allweddol mewn poblogaeth yn ôl tri grŵp oedran neilltuol (0-15, 16-64 a 65 oed a throsodd).

### Atodiad 3

- Roedd 17.5% o boblogaeth Blaenau Gwent yn 0-15 oed yn 2015, cyfran ychydig yn is na'r 17.9% a welwyd ar gyfer Cymru;
- Mae'r gyfran o bobl 0-15 oed yn gostwng (2011, 17.9%);
- Roedd 63.1% o'r boblogaeth yn 16-64 ym Mlaenau Gwent yn 2015, y gyfran uchaf o'r holl ardaloedd awdurdodau lleol yn rhanbarth Gwent ac yn uwch na chyfradd Cymru oedd yn 61.9%;
- Mae'r gyfran o bobl 16-64 oed yn gostwng (2011, 64.2%);
- Roedd 19.5% o'r boblogaeth ym Mlaenau Gwent yn 65 oed neu drosodd ar 30 Mehefin 2015. Mae hyn yn cymharu gyda 20.2% ar gyfer Cymru; a
- Mae'r gyfran o'r bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu (2011, 17.9%).

Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos fod 28% o'r holl bobl sy'n byw ym Mlaenau Gwent yn dweud fod ganddynt broblem iechyd neu dostrwydd hirdymor gyfyngol, lle mae gweithgareddau dydd-i-ddydd yn gyfyngedig. Roedd hyn yn uwch na Chymru yn gyffredinol (23%) a dyma'r lefel ail uchaf yng Nghymru (ar ôl Castell-nedd Port Talbot gyda 28%).

Dengys ystadegau mwy diweddar o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (Mehefin 2018) fod Blaenau Gwent yn parhau i fod â lefelau sylweddol uwch na'r cyfartaledd o anabledd gyda chyfanswm o 31.6% o bobl oedran gwaith yn cael eu diffinio fel bod yn anabl (craidd economaidd weithgar neu anabl gwaithgyfyngol) o gymharu gyda 22.8% ar gyfer Cymru.

### **Amddifadedd ym Mlaenau Gwent**


Mae Ffigur 1 yn dangos safle cyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n dangos maint yr amddifadedd yn gysylltiedig â

### Atodiad 3

nifer o ffactorau ac yn canolbwyntio ar y gyfran o breswylwyr ym mhob ardal cynnyrch ehangach haen is (LSOA) a'u lefel amddifadedd.

Mae'r fynegai gyfan yn rhoi un ffigur sy'n cynrychioli'r cyfuniad o wyth parth amddifadedd o fewn y Mynegai. Yr wyth parth yw: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, sgiliau a hyfforddiant, mynediad daearyddol i wasanaethau, tai, amgylchedd ffisegol a diogelwch y gymuned. Mae'r rhannau tywyllach o'r map yn cynrychioli'r ardaloedd hynny sydd â chanran uwch o'r boblogaeth mewn amddifadedd.

**Ffigur 1: Mynegai Amddifadedd Lluosog Blaenau Gwent 2016**



Blaenau Gwent yw'r ardal yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o'i hardaloedd LSOA yn y 10% mwyaf amddifadus (23.4%).

Mae amddifadedd yn benderfynydd allweddol o iechyd gwaelach ac yn benodol ddisgwyliad oes. Mae gan ddisgwyliad oes berthynas wrthdro gryf gydag amddifadedd; po uchaf yw amddifadedd ardal, yr isaf yw disgwyliad bywyd. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus yn sylweddol fwy tebygol o gael disgwyliad oes is a byw am lai o flynyddoedd mewn iechyd da.

## **Toriadau gwariant cyfredol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru**

Dechreuodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar raglen o bolisi cyllidol o lynder mewn ymateb i'r dirwasgiad yn 2008 gyda'r bwriad o ostwng diffygion cyllideb sy'n dal i effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae pwysau parhaus, hirdymor ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus. Drwyddi draw, bydd y gyllideb ar gyfer Cymru 8% yn is mewn termau gwirioneddol erbyn 2020 nag oedd ddeng mlynedd yn gynharach yn 2010.

O gofio am y gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cymunedol a chyhoeddus, a welir yn aml fel "rhaffau bywyd", mae pobl hŷn mewn mwy o risg o unigrwydd ac ynysigrwydd. Heb y modd i adael eu cartrefi, neu gyda llai o ymweliadau gan weithwyr cymunedol a darparwyr gwasanaethau, bydd nifer cynyddol o bobl hŷn yn teimlo'n unig ac ynysig gan arwain at effeithiau niweidiol i'w hiechyd meddwl.